NEWYDDION O AMGUEDDFA'R RWF

Cylchlythyr ysgolion oddiwrth Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Mae'r sesiynau yn cynnig:

- Clywed stori
- Cyfle i wisgo i fyny
- Gweld a chyffwrdd mewn gwrthrychau
- Cymeryd rhan mewn dril
- Cyfle i dynnu lluniau a taflenni gwaith

Gweithdai rhad ac am ddim i ysgolion!

Os ydych yn astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf neu'r Ail Ryfel Byd yna fedra ni gynnig sesiynau ar gyfer 30 o blant yn rhad ac am ddim yn yr Amgueddfa sydd tu fewn i Castell Caernarfon.

Sut i archebu eich lle?
Cysylltwch hefo ni ar 01286 673362 neu ar Shirley@rwfmuseum.wales

Prosiect Rhyfel Byd Cyntaf

- **Ydych chi angen help gyda prosiect? Rydym yn gallu helpu chi gyda gwaith ar cof golofn eich tref neu bentref.**

- **Ydych chi eisiau bod yn rhan o brosiect mawr?**
  Cewch weithio mewn partneriaeth hefo ni i ddarganfod pob Ffiwsiliar bu farw er mwyn dod a'r bechgyn i gyd yn ôl adref.

- **Roedd Hedd Wyn yn Ffiwsilwr. Haf yma mae yn 100 mlynedd ers iddo cael ei ladd yn Passchendaele.**
  Cewch glywed am fywyd milwr. Hefyd roedd llawer o feirdd adnabyddus eraill yn y catrwad— beth am sesiwn am farddoniaeth rhyfel?

- **Os na fedrwch ddod i'r Amgueddfa - efallai bod modd i ni ddod a'r amgueddfa i chi!**

©RWF Museum

Manteisiwch ar y cyfle! Cysylltwch nawr.

BETSI CADWALADR a'r CRIMEA

Rydym yn EDRYCH am 2 ysgol i drialu gweithdy ar y Crimea, stori Betsi Cadawladr a Florence Nightingale. Gyda milwr a nyrs o'r Crimea i adrodd y stori. Cysylltwch am wybodaeth ac archebu lle.

Sesiynau celf am ddim

Rydym yn cynnig sesiynau creu medalau, creu bathodynau, arlunio arteffactau ayb. Cysyllwch am wybodaeth.